coram pacey

| Pecyn cyfryngau cymdeithasol cefnogwyr: Wythnos Gwarchod Plant 2026 #LledrithGwarchodPlant | Supporter social media pack: Childminding Week 2026 #MagicofChildminding |
|---|---|
| Negeseuon allweddol<br>• **Wythnos Gwarchod Plant 2026** yw hi'r wythnos hon (11-17 Mai) – sef dathliad blynyddol o'r rôl hanfodol mae gwarchodwyr plant yn ei chwarae yng Nghymru a Lloegr wrth lywio bywydau plant a theuluoedd.<br>• Heddiw (12 Mai) mae Coram PACEY wedi lansio adroddiad mawr newydd o'r enw **Lledrith Gwarchod Plant.**<br>• Mae'n amlinellu'r effaith drawsnewidiol mae gwarchodwyr plant yng Nghymru a Lloegr yn ei chael ar blant, teuluoedd, cymunedau lleol a'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ehangach.<br>• Mae Coram PACEY yn defnyddio Wythnos Gwarchod Plant 2026 a lansiad yr adroddiad i alw am fwy o gymorth llywodraethol a chydnabyddiaeth i warchodwyr plant a'u gwaith, gan annog y llywodraeth i weithredu er mwyn gwrthdroi'r cwymp mewn nifer y gwarchodwyr plant. | Key messages<br>• This week (11-17 May) is **Childminding Week 2026** - an annual celebration of the vital role that childminders in England and Wales play in shaping children and families' lives.<br>• Coram PACEY has today (12 May) launched a major new report titled the **Magic of Childminding.**<br>• It sets out the transformational impact that childminders in England and Wales have on children, families, local communities and the wider early years and childcare sector.<br>• Coram PACEY is using Childminding Week 2026 and the launch of the report to call for greater governmental support and recognition of childminders and their work, urging them to act to reverse the decline in childminders. |
| Gwefan Wythnos Gwarchod Plant | Childminding Week webpage |
| Adroddiad Lledrith Gwarchod Plant | Magic of Childminding report |
| **Asedau digidol:** Lawrlwythwch ddelweddau cymdeithasol enghreifftiol yma | **Digital assets:** Download example social images here |

| | |
|---|---|
| **Hashnodau:** #WythnosGwarchodPlant2026 #LledrithGwarchodPlant<br><br>**Tagiau:** @CoramPACEYCymru @CoramPACEY<br><br>**Facebook:**<br>https://www.facebook.com/corampaceycymru<br>https://www.facebook.com/CoramPACEY<br><br>**LinkedIn:** https://www.linkedin.com/company/3020177<br><br>**Instagram:**<br>https://www.instagram.com/corampaceycymru/<br>https://www.instagram.com/corampacey/ | **Hashtags:** #ChildmindingWeek2026 #MagicofChildminding<br><br>**Tags:** @CoramPACEYCymru @CoramPACEY<br><br>**Facebook:**<br>https://www.facebook.com/corampaceycymru<br>https://www.facebook.com/CoramPACEY<br><br>**LinkedIn:** https://www.linkedin.com/company/3020177<br><br>**Instagram:**<br>https://www.instagram.com/corampaceycymru/<br>https://www.instagram.com/corampacey/ |
| **Copi hyrwyddo enghreifftiol** | **Sample promotional copy** |
| **I gefnogwyr**<br>Lansiad yr adroddiad<br>• Yn ystod **#WythnosGwarchodPlant2026**, mae'n falch gennym gefnogi lansiad adroddiad newydd @CoramPACEY **#LledrithGwarchodPlant** sy'n amlygu buddion trawsnewidiol gwarchod plant i blant, teuluoedd a chymunedau lleol. Rydym yn cefnogi'r alwad am fwy o gymorth a chydnabyddiaeth i warchodwyr plant ledled Cymru a Lloegr.<br><br>Wythnos Gwarchod Plant 2026<br>• Rydym yn falch o gefnogi **#WythnosGwarchodPlant2026** a dathlu **#LledrithGwarchodPlant**. Mae ymgyrch eleni'n dathlu'r miloedd o warchodwyr plant sy'n croesawu plant i'w cartrefi i ddysgu, tyfu a ffynnu wrth ddarparu cymorth hyblyg y gellir ymddiried ynddo i deuluoedd. Rydym yn ymuno â'r sector wrth | **For supporters**<br>Report launch<br>• During **#ChildmindingWeek2026**, we are proud to support the launch of a new @CoramPACEY report **#MagicofChildminding** highlighting the transformational benefits of childminding for children, families and local communities. We support the call for increased support and recognition of childminders across England and Wales.<br><br>Childminding Week 2026<br>• We are proud to support **#ChildmindingWeek2026** and celebrate the **#MagicofChildminding**. This year's campaign celebrates the thousands of childminders who open their homes to help children learn, grow and thrive while providing flexible, trusted support for families. We join the sector in thanking childminders for their |

| | |
|---|---|
| ddiolch i warchodwyr plant am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad a'r effaith cadarnhaol maent yn ei chael ar fywydau plant a theuluoedd. | dedication, professionalism and commitment and positive impact on children and families' lives. |
| **I warchodwyr plant**<br>• Fel gwarchodwr plant, rwy'n falch o ddathlu **#WythnosGwarchodPlant2026** a **#LledrithGwarchodPlant**. Mae bod yn warchodwr plant yn golygu creu amgylchedd cartref oddi cartref diogel sy'n feithriniol lle gall plant ddysgu, chwarae, tyfu a ffynnu bob dydd. Mae'r wythnos hon yn gyfle i ddathlu'r rôl bwysig mae gwarchodwyr plant yn ei chwarae a'r gwahaniaeth cadarnhaol rydym yn ei wneud i blant a theuluoedd bob dydd. | **For childminders**<br>• As a childminder, I am proud to celebrate **#ChildmindingWeek2026** and the **#MagicofChildminding**. Being a childminder means creating a safe, nurturing home-from-home environment where children can learn, play, grow and thrive every day. This week is a chance to celebrate the important role childminders play and the positive difference we make to children and families every day. |
| **I awdurdodau lleol:**<br>• Yr **#WythnosGwarchodPlant2026** hon mae [local authority name] yn falch o ddathlu'r gwaith rhagorol mae gwarchodwyr plant yn ei wneud yn ein cymuned. Mae gwarchodwyr plant yn darparu gofal o safon a hyblyg ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n cefnogi datblygiad plant ac sy'n galluogi teuluoedd i weithio a ffynnu. Mae eu rôl yn rhan hanfodol o'n cynnig blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol, sy'n cefnogi plant i ddysgu a thyfu a theuluoedd i weithio a ffynnu. Rydym yn diolch i'r holl warchodwyr plant am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i roi'r dechrau gorau posib ym mywyd i blant **#LledrithGwarchodPlant**<br>• Mae'n bleser gennym gefnogi #WythnosGwarchodPlant2026 a rhoi ffocws ar y gwaith hynod werthfawr mae gwarchodwyr plant ledled ein hardal yn ei wneud. Gan weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, mae gwarchodwyr plant yn creu amgylcheddau | **For local authorities:**<br>• This **#ChildmindingWeek2026** [local authority name] is proud to celebrate the outstanding work of childminders in our community. Childminders provide high-quality, flexible early years care that supports children's development and enables families to work and thrive. Their role is a vital part of our local early years and childcare offer, supporting children to learn and grow and families to work and thrive. We thank all childminders for their dedication, professionalism and commitment to giving children the best possible start in life **#MagicofChildminding**<br>• We are pleased to support #ChildmindingWeek2026 and to shine a light on the invaluable work of childminders across our area. Working in partnership with families, childminders create safe, nurturing environments where children can learn, grow and flourish. **#MagicofChildminding** |

| | |
|---|---|
| diogel a meithriniol lle gall plant ddysgu, tyfu a ffynnu. **#LledrithGwarchodPlant** | |
| **I rieni:**<br>• Fel rhiant sy'n defnyddio gwarchodwr plant, mae'n falch gen i gefnogi **#WythnosGwarchodPlant2026** a dathlu **#LledrithGwarchodPlant**. Yr wythnos hon, rydym yn diolch i'r holl warchodwyr plant am y gofal anhygoel, yr ymroddiad a'r effaith gadarnhaol maent yn ei chael ar deuluoedd fel fy un i bob dydd. | **For parents:**<br>• As a parent who uses a childminder, I am proud to support **#ChildmindingWeek2026** and celebrate the **#MagicofChildminding**. This week, we are thanking all childminders for the incredible care, dedication and positive impact they have on families like mine every day. |
| **I lunwyr polisi a chynrychiolwyr etholedig**<br>• Mae'n falch gen i gefnogi **#WythnosGwarchodPlant2026** a dathlu **#LledrithGwarchodPlant**. Mae ymgyrch eleni yn dathlu'r miloedd o warchodwyr plant sy'n croesawu plant i'w cartrefu i'w helpu i ddysgu, tyfu a ffynnu wrth ddarparu cymorth hyblyg y gellir ymddiried ynddo i deuluoedd. Rwy'n ymuno â'r sector wrth ddiolch i warchodwyr plant am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad wrth roi'r dechrau gorau posib ym mywyd i blant. | **For policymakers and elected representatives**<br>• I am proud to support **#ChildmindingWeek2026** and celebrate the **#MagicofChildminding**. This year's campaign celebrates the thousands of childminders who open their homes to help children learn, grow and thrive while providing flexible, trusted support for families. I join the sector in thanking childminders for their dedication, professionalism and commitment to giving children the best possible start in life. |